Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio

Dyddiad yr Adroddiad 17 Mawrth 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

Awdur yr Adroddiad: Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

Teitl Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2019-20 Cyngor Sir Ddinbych

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae adroddiad o'r enw 'Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2019–20 Cyngor Sir Ddinbych' wedi cael ei baratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ac mae'n amgaeedig. Mae'r adroddiad yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor yn 2019-20.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gofyn bod yr adroddiad mewnol hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y pwyllgor hwn yn flynyddol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor yn 2019/20, ac at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol a'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith hwn.

Mae'r adroddiad yn canfod bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno ceisiadau grant 2019/20. Mae nifer y grantiau sy'n cael eu harchwilio'n benodol gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi gostwng yn ddramatig dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r pedwar sy'n parhau yn gymhleth iawn ac yn cynnwys nifer fawr o drafodion a gwerth. Mae'n braf bod cyfanswm effaith diwygiadau i hawliadau a ffurflenni'r Awdurdod yn fach. Dylid nodi hefyd bod un o'r cymwysterau o ganlyniad i Swyddfa Archwilio Cymru yn methu â chynnal eu gwiriadau arferol oherwydd effaith Covid 19 yn hytrach nag unrhyw beth a ganfuwyd a oedd yn anghywir.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae Cyllid Grant yn hanfodol i ariannu gweithgarwch llywodraeth leol mewn nifer o feysydd. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu i roi sicrwydd bod trefniadau digonol yn eu lle o fewn y Cyngor i weinyddu'r broses grant.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2019-20 wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ddinbych drwy gydol y broses archwilio ac mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw faterion sy'n codi o waith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor at ddefnydd mewnol y Cyngor er mwyn helpu iddo ganolbwyntio ar unrhyw feysydd o risg neu wendid. Mae'n braf nodi bod yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i'r awdurdod.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael â'r risg neu effaith, neu eu lleihau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. O dan Baragraff 20 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan lywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grant, yn gwneud trefniadau ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni.